ATODIAD I AMOD 4

Y targedau isaf i'w cynnwys ynng ngwasanaethau a safonau rhestredig y Daliwr Trwydded

CYNNYRCH/GWASANAETH			TARGED (%)		
Rhif	Enw'r cynnyrch/gwasanaeth		**Tan ddiwedd Mawrth 2004**	**Tan ddiwedd Mawrth 2005**	**Tan ddiwedd Mawrth 2006**
1	Post Dosbarth Cyntaf	Nodiadau 1 - 5	92.5	92.5	93.0
2	Post Ail Ddosbarth	Nodiadau 1 - 5	98.5	98.5	98.5
3	Mailsort 1	Nodiadau 1 - 6	91.0	91.0	91.5
4	Mailsort 2	Nodiadau 1 - 6	97.5	97.5	97.5
5	Mailsort 3	Nodiadau 1 – 7	97.5	97.5	97.5
6	Presstream 1	Nodiadau 1 - 5	90.5	90.5	91.0
7	Presstream 2	Nodiadau 1 - 5	97.5	97.5	97.5
8	Argraff Post-daledig Dosbarth 1[af]	Nodiadau 1 – 5, 8	90.6	90.6	91.1
9	Argraff Post-daledig Ail Ddosbarth	Nodiadau 1 – 5, 8	97.4	97.4	97.4
10	Gwasanaethau ymateb Dosbarth 1[af]	Nodiadau 1 – 5, 9	90.3	90.3	90.8
11	Gwasanaethau ymateb Ail Ddosbarth	Nodiadau 1 – 5, 9	97.5	97.5	97.5
12	Special delivery	Nodyn 13	99.0	99.0	99.0
13	Post wrth gwt pob cynnyrch: % i'w ddosbarthu o fewn y nifer benodol o ddiwrnodau gwaith i'r dyddiad gwasanaeth penodedig ar gyfer gwasanaethau 1 - 12 uchod a 16 isod		99.9 o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad hwnnw ar gyfer gwasanaethau 1 -12 ac o fewn 7diwrnod gwaith i'r dyddiad hwnnw ar gyfer gwasnaeth 16	99.9 o fewn 3 diwrnod gwaith ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn	
14	Targedau ardaloedd cod post: yr holl bost wedi'i stampio neu wedi'i brisio gan fesurydd	Nodyn 10	90.5% ym mhob ardal	91.0% ym mhob ardal	91.5% ym mhob ardal
15	Targedau ardaloedd cod post: post o fewn yr un ardal	Nodyn 11	92.5% ym mhob ardal	92.5% ym mhob ardal	92.5% ym mhob ardal
16	Parseli – gwasanaeth safonol 3 diwrnod	Nodyn 12	90.0	90.0	90.0

Nodiadau:

1. Y cynhyrchion a'r gwasanaethau a nodir uchod yw'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hynny y gellir eu diffinio'n llawnach trwy gyfeirio at dabl o ddiffiniadau wedi'i gymeradwyo gan Postcomm i bwrpas yr Atodiad hwn â chytundeb Daliwr y Drwydded[1].
2. Mae'r canrannau a ddangosir ar gyfer y cynhyrchion/gwasanaethau a rifwyd 1 - 4 a 6 - 11 uchod yn dangos canran y llythyrau a ddylai ddiwallu'r gofynion gwasanaeth o ddosbarthu y diwrnod gwaith canlynol ar gyfer gwasanaethau dosbarth cyntaf neu erbyn diwedd y trydydd diwrnod gwaith ar ôl casglu neu eu derbyn gan Ddaliwr y Drwydded ar gyfer gwasanaethau ail ddosbarth. Mae'r gwasanaethau a rifwyd 1, 3, 6, 8 a 10 yn wasanaethau dosbarth cyntaf. Mae'r gwasanaethau a rifwyd 2, 4, 7, 9 a 11 yn wasanaethau ail ddosbarth.
3. Dylai'r canrannau i'w cyflawni gael eu cyflawni ar gyfartaledd yn y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol trwy gydol y cyfnodau o 12 mis tan ddiwedd mis Mawrth ym mhob un o'r blynyddoedd a ddangosir, ac eithrio yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
4. Cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dydd Llun cyntaf ym mis Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn ac sy'n dod i ben ddechrau'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y gwyliau cyhoeddus Blwyddyn Newydd nesaf neu, yn yr Alban, ar ddechrau'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl gwyliau cyhoeddus Blwyddyn Newydd nesaf yr Alban.
5. Mae'r targedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn dargedau cenedlaethol ar gyfer post Dosbarth Cyntaf wedi'i stampio neu wedi'i brisio gan fesurydd a phob post Ail Ddosbarth wedi'i stampio neu wedi'i brisio gan fesurydd; gallant adlewyrchu crynswth cymharol a thargedau gwahanol ar gyfer cludiant o fewn yr un ardal, i ardal gyfagos ac i ardal bell.
6. Mae unrhyw gyfeiriad at Mailsort 1, 2 neu 3 yn cynnwys yr holl wasanaethau Mailsort a ddisgrifir yn y tabl a gafodd ei gymeradwyo i bwrpas Nodyn 1 ynghyd ag atodiadau 1,2 a 3 yn y drefn honno.
7. Mae'r canrannau a ddangosir ar gyfer y cynnyrch/ gwasanaeth rhif 5 yn dangos canran y llythyrau a ddylai ddiwallu gofyniad y gwasanaeth o ran dosbarthu erbyn diwedd y seithfed diwrnod gwaith ar ôl casglu neu dderbyn.
8. Mae'r gwasanaethau a gynigir ar gyfer Argraff Post-daledig Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yr un fath i raddau helaeth â'r gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth eraill. Mae targedau perfformiad gwahanol yn berthnasol oherwydd trefniadau ychydig yn wahanol ar gyfer derbyn post dan wasanaethau Argraff Post-daledig gan Ddaliwr y Drwydded o'u cymharu â gwasanaethau eraill.
9. Mae'r gwasanaethau ymateb y cyfeirir atynt yn y tabl a gymeradwywyd i bwrpas Nodyn 1 yn cael eu cynnig trwy'r post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.
10. Mae'r targedau ardaloedd cod post yn dargedau isaf ar gyfer llwyddo ar gyfartaledd i ddosbarthu post dosbarth cyntaf y diwrnod gwaith canlynol ar ôl derbyn neu gasglu ym mhob ardal cod post (ac eithrio HS, KW a ZE) trwy gydol y cyfnodau o 12 mis tan ddiwedd Mawrth ym mhob un o'r blynyddoedd a nodir, ac eithrio cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (gweler nodyn 4).
11. Mae'r Targedau o fewn un ardal cod post yn dargedau isaf, ar gyfer dosbarthu post dosbarth cyntaf sy'n cael ei bostio a'i ddosbarthu yn yr un ardal cod post, a disgwylir cyflawni'r targedau ar gyfartaledd ym mhob ardal cod post trwy gydol y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ddiwedd mis Mawrth ym mhob un o'r blynyddoedd a ddangosir, ac eithrio yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (gweler nodyn 4).
12. Mae'r canrannau a ddangosir ar gyfer y cynnyrch/gwasanaeth rhif 16 yn dangos canran y parseli a ddylai ddiwallu gofyniad y gwasanaeth o ran dosbarthu erbyn diwedd y trydydd diwrnod gwaith ar ôl casglu neu dderbyn.

Mae'r canrannau'n dangos canran y llythyrau i'w dosbarthu yn unol â'r gofynion dosbarthu ar gyfer y gwasanaeth a brynir gan yr anfonydd.

---

[1]Fe'i cymeradwywyd 23 Mawrth 2001. Ar gael ar gofrestr gyhoeddus Postcomm a'r wefan.